

Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd yng Nghaffi Beca nos Fawrth 3^{ydd} Mehefin 2025 am 7.30pm

Yn bresennol: Y Cyghorwyr Russell Davies (Cadeirydd), Rebecca Jaimangal-Jones (Is-gadeirydd), Anthony Jenner, Dennis Jones, Anthony Eynon, Ffion John, Michael Fussell, Julian Williams, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc/RFO)

1. Ymddiheuriadau: -

2. Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol diwethaf ar 4^{ydd} Mehefin 2024

- Cymeradwywyd cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd yng Nghaffi Beca, Efailwen ar Nos Fawrth 4ydd Mehefin 2024 fel y'u dosbarthwyd i'r aelodau ar gynnig FfJ ac eiliwyd gan AJ.

3. Adroddiad Blynnyddol 2024 – 25

- Cafodd drafft o Adroddiad Blynnyddol y Cyngor ar gyfer 2024–25, a baratowyd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth (Cymru) 2021, ei ddosbarthu i'r aelodau drwy e-bost cyn y cyfarfod.
- Nododd JM fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau a busnes y Cyngor, ynghyd â chrynodeb o incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024–25.
- Pwysleisiodd RD bod 2024–25 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn, yn enwedig gydag adfer llwybrau troed lleol a wnaed yn bosibl drwy gyllid grant. Roedd y prosiect wedi arwain at ymglymiad a chyfranogiad cymunedol da.
- Cymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad a diolchwyd i JM am ei baratoi. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn gynted.

4. Mabwysiadu Cyfrifon 2024 – 25

- Cadarnhaodd JM fod y Datganiad Blynnyddol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025 wedi'i gwblhau ac yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo yn y cyfarfod.
- Darparwyd crynodeb o'r datganiad cyfrifyddu fel a ganlyn:
 - y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol (ar 31 Mawrth 2024) oedd £2,710.51.
 - derbyniodd y Cyngor braesept o £8,500 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 (cynnydd o £500 ar y flwyddyn flaenorol).
 - derbyniwyd incwm ychwanegol o £45,333.27, yn bennaf o gyllid grant.
 - cyfanswm yr incwm, gan gynnwys y braesept, oedd £53,833.27.
 - cyfanswm y gwariant ar gyfer y flwyddyn oedd £53,972.40, a oedd yn cynnwys:

- £39,333.27 ar gyfer y prosiect a ariannwyd gan grant
- £1,398.80 ar gyfer cyflog y Clerc
- £200.00 ar gyfer llogi ystafell
- £1,962.95 ar gyfer goleuadau cyhoeddus
- £1,092.00 mewn lwfansau aelodau (tâl)
- £2,130.60 mewn ffioedd archwilio
- costau ychwanegol ar gyfer y wefan, aelodaeth Un Llais Cymru, yswiriant, a'r hysbysfwrdd,
- £7,289.00 a wariwyd o dan Adran 137 (cefnogi elusennau a sefydliadau lleol), a oedd yn gynnydd sylweddol ar flynyddoedd blaenorol.
- Nid yw £565.79 o TAW wedi'i hawlio'n ôl eto, ond cadarnhaodd JM y bydd hawliad yn cael ei gyflwyno yn ystod yr wythnos ganlynol.
- Y balans cau ar 31 Mawrth 2025 oedd £2,571.38, o'i gymharu â £2,710.51 ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.
- Adolygwyd y cyfrifon a'r ffurflen gyfrifyddu flynyddol gan yr Archwilydd Mewnol, Rosemarie Davies, a gadarnhaodd fod y cofnodion i gyd mewn trefn a'r cyfrifon yn gywir.
- Nododd JM fod y Cyngor wedi'i gofrestru gyda CThEM fel cyflogwr a bod angen camau pellach i adolygu'r trefniadau PAYE ac Yswiriant Gwladol. Bydd hyn yn cael ei ystyried dros yr wythnosau nesaf.
- Cymeradwyodd y Cyngor y Ffurflen Gyfrifyddu Flynyddol yn ffurfiol, ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd (RD) a'r Clerc (JM). Bydd JM nawr yn cyflwyno'r ffurflen wedi'i chwblhau i'r Swyddfa Archwilio.

5. Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer 2025 – 26

- Cadarnhawyd mai RD fyddai'r Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ac mai RJJ fyddai'r Is-Gadeirydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8pm.

Arwyddwyd

Cadeirydd:

T R Jones

Dyddiad:

26/05/2026